Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

17 Hydref 2016

Annwyl Mark

**Datganoli Cyllidol**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi bod yn trafod ei flaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad, ac un o'r prif feysydd a fydd yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor yn ystod y pum mlynedd nesaf fydd datganoli pwerau cyllidol a sut y caiff y pwerau hyn eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Pan oeddech yn bresennol yn y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) ar 21 Medi 2016, roedd rhywfaint o'r dystiolaeth yn ymwneud â'r fframwaith cyllidol. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn eich trafodaethau cyfredol â'r Trysorlys, yn enwedig o ran sicrhau cytundeb yn unol â'r egwyddor 'dim niwed', a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r trafodaethau hyn.

Rydym yn deall y bydd y trafodaethau wedi symud yn eu blaenau ers eich cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 28 Medi 2016, a byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

- y dyddiad cau ar gyfer dod i gytundeb ar y fframwaith cyllidol â Llywodraeth y DU;
- pryd y bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Diolch am eich llythyr ar 23 Medi ynghylch sefydlu Awdurdod Refeniw Cymru. Mae sefydlu Awdurdod Refeniw Cymru'n rhywbeth sydd wedi cael ei godi mewn tystiolaeth ar Fil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), ac mae gennym ni fel Pwyllgor ddiddordeb yn y cynnydd a wneir yn sgil sefydlu Awdurdod Refeniw Cymru, a byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni.

Gan fod trafodaethau'n dal i fynd yn eu blaenau, ac oherwydd pwysigrwydd y mater, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys.

O ran sgiliau a nodweddion y Bwrdd, byddem yn ystyried y nodweddion canlynol fel rhai hanfodol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd:

- profiad o weithio ar lefel Bwrdd, naill ai yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus;
- profiad o gyflawni amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaeth;
- gwybodaeth am gyd-destun gwleidyddol datganoli yng Nghymru

Wrth reswm, bydd gennych eich barn eich hun ar y nodweddion hyn ac, yn amlwg, byddem yn disgwyl i unrhyw benodiad gydymffurfio ag egwyddorion Nolan.

Yn olaf, rwy'n ymwybodol bod darpariaeth yn Neddf Cymru 2014 ar gyfer cyflwyno adroddiad gweithredu blynyddol mewn perthynas â darpariaethau Deddf Cymru. Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyfarfod Pwyllgor yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gweithredol nesaf. Rwy'n deall y bydd angen i hyn fod cyn 17 Rhagfyr, felly hoffem ofyn i chi fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr, a chyflwyno'r adroddiad erbyn y dyddiad hwn os yw'n bosibl. Rydych yn cyfeirio at y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn cynnig rhyw fath o drywydd i'ch sesiwn dystiolaeth.

Yn gywir

Simon Thomas
**Cadeirydd**

**cc.** David Gauke AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys